Cyfraith breifat | Mehefin 2022

Datgelu cyfraith teulu breifat: Gorbryder ac iselder ymhlith plant a phobl ifanc

Authors
Lucy J. Griffiths
Joanne McGregor
Rhodri D. Johnson
Karen Broadhurst
Theodora Pouliou
Linda Cusworth
Laura North
David Ford
Ann John

Nuffield Family Justice Observatory

Adroddiad

Nod yr adroddiad hwn yw cynnig mewnwelediad i broffiliau iechyd plant a phobl ifanc sy'n rhan o achosion cyfraith breifat yng Nghymru. Mae'n crynhoi'r canfyddiadau o erthygl cyfnodolyn a gyhoeddwyd yn BJPsych Open (Griffiths et al. 2022).

Dyma'r pedwerydd adroddiad yn ein cyfres *Datgelu Cyfraith Teulu Breifat*, sy'n canolbwyntio at deuluoedd y rhai sy'n rhan o achosion cyfraith breifat yng Nghymru a Lloegr.

Awduron

- Dr Lucy J. Griffiths, Prifysgol Abertawe, aelod o'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol
- Joanne McGregor, Prifysgol Abertawe
- Rhodri D. Johnson, Prifysgol Abertawe
- Yr Athro Karen Broadhurst, Prifysgol Caerhirfryn, Cydgyfarwyddwr y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol
- Dr Theodora Pouliou, Prifysgol Abertawe
- Dr Linda Cusworth, Prifysgol Caerhirfryn, aelod o'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol
- Dr Laura North, Prifysgol Abertawe, aelod o'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol
- Yr Athro David Ford, Prifysgol Abertawe, Cydgyfarwyddwr y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol
- Yr Athro Ann John, Prifysgol Abertawe

Cyfeiriad argymelledig

Griffiths, L.J. et al. (2022). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Gorbryder ac iselder ymhlith plant a phobl ifanc*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/our-work/private-law

Ysgrifennwyd mewn partneriaeth â:

Population Data Science
at Swansea University

Lancaster University

Swansea University
Prifysgol Abertawe
Medical School
Ysgol Feddygaeth

cfj
Centre for
Child & Family
Justice Research

Adolescent Mental Health
DATA PLATFORM

Family Justice
Data Partnership

SAIL DATABANK

Cydnabyddiaethau

Hoffai'r awduron ddiolch i aelodau eraill y tîm sy'n rhan o'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, a ariennir gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield – gan gynnwys Laura Cowley, Jon Smart, Ashley Akbari, Kerina Jones, Simon Thompson (Prifysgol Abertawe), a Stefanie Doebler, Bachar Alrouh, Claire Hargreaves (Prifysgol Caerhirfryn). Hefyd, hoffai'r awduron gydnabod cyfraniad deallusol awduron yr adroddiadau blaenorol yn y gyfres.

Hoffai'r awduron gydnabod yr holl ddarparwyr data sy'n trefnu bod data ar gael ar gyfer ymchwil, a Llwyfan Data Iechyd Meddwl y Glasoed am ddarparu'r codau clinigol iechyd meddwl a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon.

Hoffai'r awduron ddiolch i'r bobl ganlynol hefyd am eu cymorth â'r prosiect hwn: Lisa Harker, Alice Roe a Jude Eyre, Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield; Cafcass Cymru; Canolfan Ymchwil Data Gweinyddol Cymru; a Llywodraeth Cymru. Hefyd, hoffai'r awduron ddiolch i'r adolygwyr cymheiriaid am eu sylwadau ar erthygl academaidd BJPsych Open, sy'n ffurfio sail i'r adroddiad hwn.

Ymwadiad

Ariannwyd y prosiect hwn gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, ond safbwyntiau'r awduron yw'r rhai a fynegir ac nid rhai ACT Nuffield na Sefydliad Nuffield, o reidrwydd.

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2022
100 St John Street, London EC1M 4EH Ffôn: 020 7631 0566

Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound

Cynnwys

Crynodeb gweithredol 1
Cyflwyniad 3
Methodoleg 5
Cryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth 7
Canfyddiadau 8
Casgliadau 12
Cyfeiriadau 13
Atodiad 16

Crynodeb gweithredol

Dyma'r astudiaeth gyntaf ar sail y boblogaeth sy'n archwilio anghenion iechyd meddwl plant sy'n rhan o achosion cyfraith breifat yng Nghymru.[1] Mae'n rhoi trosolwg ar gyfraddau iselder a gorbryder ymhlith y grŵp hwn dros amser ac yn ei gymharu â grŵp tebyg o blant nad oeddent yn rhan o achosion. Mae'n crynhoi'r canfyddiadau o erthygl cyfnodolyn a gyhoeddwyd yn BJPsych Open (Griffiths et al. 2022). Mae'r astudiaeth yn helpu meithrin dealltwriaeth well o ffactorau risg iechyd meddwl plant sy'n rhan o achosion cyfraith breifat.

Ynglŷn â cheisiadau cyfraith breifat

Yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus (neu amddiffyn plant) sy'n cael eu dwyn gan yr awdurdod lleol, caiff ceisiadau cyfraith breifat eu sbarduno gan benderfyniadau unigolion preifat, sef rhiant fel arfer, yn hytrach na'r wladwriaeth. Anghydfodau yw achosion llys teulu cyfraith breifat – rhwng y rhieni ar ôl i'r berthynas chwalu, fel arfer – yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer magu plentyn, fel ble dylai plentyn fyw a/neu bwy y dylai treulio amser â nhw.

Ynglŷn â'r data

Defnyddiodd yr astudiaeth hon ddata gweinyddol dienw a ddarparwyd gan Cafcass Cymru, wedi'i gysylltu â data iechyd meddygon teulu yng Nghymru ym Manc Data SAIL – sef amgylchedd ymchwil dibynadwy, tra diogel.

Crëwyd carfan o'r holl blant (n=17,041) a oedd yn rhan o achosion cyfraith breifat yng Nghymru rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2018. Cymharwyd y canfyddiadau â grŵp cymharu (n=680,617) a ddetholwyd o blith plant ym mhoblogaeth gyffredinol Cymru nad oeddent yn rhan o achosion.

Cyfyngiadau'r astudiaeth

Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar broblemau a oedd yn hysbys i'r ymarferwyr gofal iechyd ac wedi'u codio mewn cofnodion cleifion yn unig; felly, mae ein ffigurau'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o nifer wirioneddol y plant sydd â gorbryder ac iselder.

Mae'r grŵp cymharu yn debygol o gynnwys rhai plant y mae eu rhieni wedi gwahanu ond nad oeddent wedi defnyddio'r llysoedd teulu i ddatrys anghydfodau magu plant, yn ogystal â llawer o blant nad yw eu rhieni wedi gwahanu. Felly, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau uniongyrchol ynghylch y berthynas rhwng achosion llys ac iechyd meddwl plant, yn hytrach na rhieni'n gwahanu.

[1] Trwy hyn, rydym yn golygu plant dan 18 oed ar ddyddiad y cais cofnodedig cyntaf i'r llys.

Canfyddiadau allweddol

- Roedd y plant a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat ('y garfan cyfraith breifat') yn fwy tebygol o brofi iselder a gorbryder na'u cyfoedion yn y grŵp cymharu. Roedd cyfraddau iselder 60% yn uwch a chyfraddau gorbryder 30% yn uwch yn y garfan cyfraith breifat.
- Yn y ddau grŵp, cynyddodd nifer yr achosion o iselder a gorbryder yn y saith blynedd rhwng 2011 a 2018 – ond roedd cyfradd y cynnydd yn uwch yn y garfan cyfraith breifat.
- Roedd merched yn fwy tebygol o brofi iselder a gorbryder na bechgyn. Mae hyn yn gyson â thueddiadau yn y grŵp cymharu (sy'n adlewyrchu'r boblogaeth gyffredinol).
- Roedd plant hŷn yn fwy tebygol o brofi iselder a gorbryder na phlant iau (dan 10 oed). Mae hyn hefyd yn adlewyrchu tueddiadau yn y grŵp cymharu.
- Roedd plant a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat hefyd yn fwy tebygol o ddatblygu iselder neu orbryder na phlant yn y grŵp cymharu, sy'n awgrymu eu bod yn parhau i fod mewn mwy o berygl o ddioddef problemau iechyd meddwl ar ôl yr achosion.

Myfyrdod

- O ystyried y cyfraddau uwch o orbryder ac iselder ymhlith plant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat, mae angen meddwl yn ofalus am sut mae'r system yn effeithio ar blant sydd eisoes yn fwy bregus. Yn benodol, a oes ffordd i'r system fod yn fodd i fanteisio ar gefnogaeth briodol mewn sefyllfaoedd lle caiff y problemau hyn eu nodi.

Gwaith arall yn y gyfres cyfraith breifat

Dyma'r pedwerydd mewn cyfres o adroddiadau yn ein cyfres *Datgelu Cyfraith Teulu Breifat*. Mae'n dilyn:

- Cusworth, Bedston et al. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-wales
- Cusworth, Bedston et al. (2021). *Uncovering private family law: Who's coming to court in England?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-england
- Cusworth, Hargreaves et al. (2021). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Nodweddion a ffactorau risg oedolion (Cymru)*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-adult-characteristics-and-vulnerabilities-wales

Cyflwyniad

Yn 2018, roedd 4,530 o blant yn gysylltiedig ag achosion cyfraith teulu breifat a, thros y degawd diwethaf, mae'r duedd gyffredinol yn nifer y ceisiadau cyfraith breifat wedi codi'n gymedrol (Cusworth, Bedston et al. 2020).

Daw plant a theuluoedd yn gysylltiedig â'r llys teulu am amrywiaeth o resymau. Yn wahanol i achosion cyfraith gyhoeddus (neu amddiffyn plant) sy'n cael eu dwyn gan yr awdurdod lleol, caiff ceisiadau cyfraith breifat eu sbarduno gan benderfyniadau unigolion preifat, sef rhiant fel arfer, yn hytrach na'r wladwriaeth. Anghydfodau yw achosion llys teulu cyfraith breifat – rhwng y rhieni ar ôl i'r berthynas chwalu, fel arfer – yn ymwneud â'r trefniadau ar gyfer magu plentyn, fel ble dylai plentyn fyw a/neu bwy y dylai treulio amser â nhw. Ar draws Cymru a Lloegr, dechreuwyd 51,658 o achosion cyfraith breifat yn 2018 (Y Weinyddiaeth Gyfiawnder 2018). Nod yr achosion hyn yw gwneud trefniadau i'r plentyn sy'n hybu ei les; ond ychydig iawn sy'n hysbys am iechyd a lles plant sy'n gysylltiedig â llysoedd teulu a'u deilliannau hirdymor.

Bydd mwyafrif y plant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith teulu breifat wedi profi eu rhieni'n gwahanu a bydd llawer ohonynt wedi wynebu gwrthdaro rhwng eu rhieni. Mae tystiolaeth gadarn iawn fod gwrthdaro rhwng rhieni sy'n fynych, yn ddwys, sy'n cael ei ddatrys yn wael ac sy'n ymwneud â'r plentyn yn gysylltiedig â nifer o ganlyniadau negyddol i blant (Grych a Fincham 1990; Harold et al. 2016; Acquah et al. 2017).

Gwyddom o astudiaethau blaenorol fod tua hanner yr achosion cyfraith breifat yn Lloegr yn cynnwys honiadau o gam-drin domestig (Hunt a Macleod 2008; Harding a Newnham 2015; Cafcass/Cymorth i Ferched 2017). Mae ymchwil ddiweddar gan y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol – sef cydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe – hefyd wedi dangos bod cam-drin domestig, defnyddio sylweddau ac afiechyd meddwl rhieni i gyd yn bresennol ar gyfraddau sylweddol uwch ymhlith teuluoedd sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat yng Nghymru nag ymhlith y boblogaeth gyffredinol (Cusworth, Hargreaves et al. 2021) a bod teuluoedd sy'n byw mewn ardaloedd mwy difreintiedig yng Nghymru a Lloegr yn cael eu gorgynrychioli (Cusworth, Bedston et al. 2020, 2021). Felly, gallai plant sy'n gysylltiedig â'r achosion hyn fod wedi wynebu ystod o brofiadau niweidiol oherwydd y nodweddion a'r ffactorau risg hyn, yn ogystal â phrofi gwrthdaro rhwng eu rhieni. Mae'r profiadau hyn yn gysylltiedig â datblygiad gwaeth yn y tymor byr a thymor hwy ac iechyd meddwl gwaeth (Kerker et al. 2015; Hughes et al. 2017; Harold a Sellers 2018) ynghyd â deilliannau cymdeithasol gwaeth, cyflawniad addysgol gwaeth ac/neu aflonyddwch difrifol arall ar eu bywydau.

Mae rhywfaint o dystiolaeth yn ymwneud ag iechyd meddwl plant mewn gofal (Ford et al. 2007; Baldwin et al. 2019); fodd bynnag, hyd y gwyddom, nid oes unrhyw ymchwil flaenorol yn y DU wedi cymharu deilliannau i blant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat, neu a fu'n gysylltiedig â nhw, â'r boblogaeth gyffredinol gan ddefnyddio data gweinyddol ar raddfa fawr. Mae angen tystiolaeth lawer gwell i sicrhau y caiff anghenion

iechyd meddwl eu deall a'u hystyried wrth wneud penderfyniadau ar sail lles. Mae astudiaethau wedi'u seilio ar ddata ar lefel y boblogaeth yn ddarbwyllol o ran darparu tystiolaeth gadarn i'r rhai sy'n llunio polisïau ac ymarferwyr i lywio datblygiad gwasanaethau.

Yn sgil hyn, archwiliodd yr astudiaeth hon iselder a gorbryder ymhlith plant a oedd yn destun achosion plant cyfraith breifat yng Nghymru o gymharu â'r rhai nad ydynt yn gysylltiedig ag achosion llysoedd teulu.

Methodoleg

Cysylltodd yr ymchwil hon ddata Cafcass Cymru a data iechyd i amlygu diagnosis a symptomau iechyd meddwl ar gyfer plant mewn achosion cyfraith breifat, ac ar gyfer grŵp cymharu o blant nad ydynt wedi cael profiad o achosion llysoedd teulu.

Cafwyd y data gweinyddol a gasglwyd ac a gynhaliwyd gan Cafcass Cymru gan Fanc Data SAIL sy'n diogelu preifatrwydd (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2019). Mae Banc Data SAIL yn cynnwys data iechyd a gweinyddol dienw, helaeth ar boblogaeth Cymru, sydd ar gael drwy blatfform rhannu data diogel, wedi'i danategu gan fodel llywodraethu gwybodaeth arloesol a chymesur.

Defnyddiwyd data Cafcass Cymru (a ddisgrifiwyd mewn man arall (Johnson et al. 2020)) i greu carfan o blant a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat yng Nghymru rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2018 (n=17,041 o blant a oedd dan 18 oed ar ddyddiad y cais cofnodedig cyntaf i'r llys).

Detholwyd grŵp cymharu cyffredinol o 680,617 o blant nad oeddent yn gysylltiedig ag achosion llysoedd teulu o Fanc Data SAIL ar gyfer yr un cyfnod. O'r grŵp hwn, dewisom sampl rheolydd o 225,650 o blant ar gyfer y dadansoddiadau amser tan y digwyddiad.

Cysylltwyd y cofnodion hyn â data Ymarfer Cyffredinol Hydredol Cymru (WLGP), sy'n cynnwys cofnodion gofal sylfaenol i gleifion sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu yng Nghymru. Ar gyfer yr astudiaeth hon, archwiliom yr holl gofnodion (diagnosisau a symptomau) o iselder a gorbryder.

Gwnaed cysylltiad hefyd â Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDS) – sef cofrestr weinyddol o'r holl unigolion yng Nghymru sy'n defnyddio gwasanaethau'r GIG yng Nghymru – er mwyn creu ein henwadur y boblogaeth (nifer y plant yn y boblogaeth) ac ar gyfer data demograffig.

Roedd dadansoddi data'n cynnwys cyfrifo amlder, cyfrannau, cyfraddau mynychder (IRau) (fesul 1,000 o flynyddoedd unigolion mewn perygl, y cyfeirir atynt fel /1,000 o hyn ymlaen), a chymarebau cyfraddau mynychder (IRRau) diagnosisau a symptomau o iselder a gorbryder a gofnodwyd mewn gofal sylfaenol i'r rhai a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat a'r rhai yn y grŵp cymharu.[2,3]

---

[2] Mae'r gyfradd mynychder yn mesur pa mor aml y mae digwyddiad yn digwydd mewn unrhyw gyfnod amser penodol ar gyfer grŵp.

[3] Mesur o wahaniaethau cymharol yw IRRau, sy'n cael eu defnyddio i gymharu cyfraddau mynychder digwyddiadau – rhwng y rhywiau, grwpiau oedran ac amddifadedd, a blynyddoedd yn yr achos hwn. Addaswyd ein hamcangyfrifon ar gyfer nodweddion unigol eraill – gweler yr atodiad.

Archwiliom hefyd effaith cysylltiad â'r achosion hyn ar y risg ddilynol o iselder a gorbryder, a elwir yn ddadansoddiad 'amser tan y digwyddiad'. Cyfrifwyd cymarebau perygl (HRau) i gynrychioli'r risg o iselder a gorbryder i blant ar ôl achosion cyfraith breifat.

Ceir manylion llawn am y fethodoleg yn yr atodiad.

Cryfderau a chyfyngiadau'r astudiaeth

Dyma'r tro cyntaf y mae cofnodion cyfraith teulu ar lefel y boblogaeth wedi'u cysylltu â data gofal sylfaenol yng Nghymru i archwilio iechyd meddwl plant sy'n gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat. Galluogodd natur hydredol y cofnodion iechyd sydd ar gael ym Manc Data SAIL i ni archwilio deilliannau problemau iechyd meddwl y cafwyd diagnosis newydd ohonynt ar ôl achosion llys hefyd. Bydd dealltwriaeth well o iechyd y grwpiau hyn yn cynnig cyfleoedd am gefnogaeth well. Fodd bynnag, cydnabyddwn y cyfyngiadau canlynol.

- Mae astudiaethau sydd wedi'u seilio ar ddata gweinyddol wedi'u cyfyngu gan gwmpas ac ansawdd y data sydd ar gael, a gesglir at ddibenion nad ydynt yn ymwneud ag ymchwil yn bennaf. Mae cyfyngiadau set ddata Cafcass Cymru wedi'u disgrifio'n flaenorol (Johnson et al. 2020).
- Mae'r astudiaeth hon yn adrodd ar broblemau a oedd yn hysbys i ymarferwyr gofal iechyd yn unig ac wedi'u codio yng nghofnodion cleifion; felly, mae ein ffigurau'n debygol o fod yn amcangyfrif rhy isel o nifer wirioneddol y plant sydd â gorbryder ac iselder.
- Nid oeddem yn gallu manteisio ar wybodaeth am ymyriadau a gafwyd ar ôl y cysylltiad â'r llysoedd teulu. Mae mwyafrif y ceisiadau cyfraith breifat ar gyfer gorchmynion trefniadau plentyn (Cusworth, Bedston et al. 2020), ond nid yw'r astudiaeth hon wedi archwilio natur y rhain na phroffiliau'r rhai a oedd yn gysylltiedig ag un achos neu achosion mynych. Felly, gellir cyfiawnhau dadansoddiadau pellach i ddeall effaith cysylltiad â'r llysoedd yn fanylach. Bydd caffael setiau data pellach gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (e.e. FamilyMan) a'u cysylltu â data presennol ym Manc Data SAIL yn hwyluso'r ymchwil hon yn y dyfodol.
- Mae'n bwysig nodi bod y grŵp cymharu o blant a ddefnyddiwyd yn debygol o gynnwys rhai plant y mae eu rhieni wedi gwahanu ac na wnaethant ddefnyddio'r llys (h.y. ni fyddant yn bresennol yn nata Cafcass). Felly, nid yw'n bosibl dod i gasgliadau uniongyrchol ynghylch y berthynas rhwng achosion llys ac iechyd meddwl plant, yn hytrach na rhieni'n gwahanu.

Canfyddiadau

Crynodeb o nodweddion y garfan

Yn ystod cyfnod yr astudiaeth, roedd 17,041 o blant yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat. Roedd ymraniad hafal, yn fras, rhwng bechgyn (51%) a merched (49%). Roedd y rhan fwyaf o blant (92%) dan 10 oed. Roedd 54% o'r plant yn y garfan cyfraith breifat yn byw yn y ddwy ardal fwyaf difreintiedig yng Nghymru.

Gweler Tabl A.1 yn yr atodiad am fanylion pellach.

Mynychder iselder

Iselder – cymharu'r grŵp cyfraith breifat â'r grŵp cymharu

Ar y cyfan, roedd iselder yn llai cyffredin yn y grŵp cyfraith breifat (3·5/1,000) nag yn y grŵp cymharu (4·6/1,000). Fodd bynnag, ar ôl addasu ar gyfer y flwyddyn, rhywedd, oedran ac amddifadedd, roedd cyfraddau iselder 60% yn uwch yn y garfan cyfraith breifat (cymhareb cyfraddau mynychder (IRR) = 1·6), o gymharu â'r grŵp cymharu.

Gweler hefyd Tabl A.2 yn yr atodiad.

Iselder dros amser

Mae Ffigur 1 yn crynhoi'r tueddiadau dros amser, yn berthynol i'r flwyddyn sylfaen, sef 2011. Yn y ddau grŵp, cynyddodd cyfraddau iselder dros amser; fodd bynnag, roedd cyfradd y cynnydd yn uwch yn y garfan cyfraith breifat. Roedd cyfraddau iselder yn y garfan cyfraith breifat bron i deirgwaith yn uwch yn 2018 (7.9/1,000), o gymharu â 2011 (0.7/1,000) (IRR ar gyfer 2018 = 2·6). Ar gyfer y grŵp cymharu, roedd cyfraddau iselder ddwywaith yn uwch yn 2018 (6·3/1,000) nag yn 2011 (2·9/1,000) (IRR ar gyfer 2018 = 2.1).

Ffigur 1: IRR (wedi'i haddasu) iselder dros amser



Gweler hefyd Tabl A.3 yn yr atodiad.

Iselder – amrywiad yn ôl rhyw, oedran ac amddifadedd

Roedd mynychder iselder ymhlith merched yn y garfan cyfraith breifat (4·7/1,000) ddwywaith yn uwch nag ymhlith bechgyn (2·4/1,000) (IRR = 1·9). Yn y grŵp cymharu, roedd cyfraddau ymhlith merched ddwywaith yn uwch nag ymhlith bechgyn hefyd (IRR = 2·4).

Roedd gan blant hŷn gyfraddau uwch o iselder yn y garfan cyfraith breifat a'r grŵp cymharu. Ymhlith plant mewn achosion cyfraith breifat, y gyfradd mynychder oedd 0·4/1,000 i'r rhai dan 10 oed, gan gynyddu i 37.3/1,000 ymhlith y rhai 15–17 oed (IRR = 75.6).

Nid oedd cyfraddau mynychder iselder a addaswyd yn amrywio yn ôl cwintel amddifadedd yn y garfan cyfraith breifat, sy'n awgrymu nad oedd amddifadedd yn ffactor risg ychwanegol sylweddol ar gyfer iselder, y tu hwnt i gysylltiad ag achosion cyfraith breifat. Fodd bynnag, ar gyfer y grŵp cymharu, roedd y mynychder isaf yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig, sef 3.9/1,000, yn cynyddu i 5.4/1,000 yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig (IRR = 1·6).

Gweler hefyd Tabl A.3 yn yr atodiad.

Mynychder gorbryder

Gorbryder – cymharu'r grŵp cyfraith breifat â'r grŵp cymharu

At ei gilydd, roedd mynychder gorbryder ychydig yn is yn y garfan cyfraith breifat (4·3/1,000) nag yn y grŵp cymharu (5·0/1,000). Fodd bynnag, ar ôl addasu ar gyfer y flwyddyn, rhywedd, oedran ac amddifadedd, roedd cyfraddau gorbryder 30% yn uwch yn y garfan cyfraith breifat (IRR = 1·3).

Gweler hefyd Tabl A.2 yn yr atodiad.

Gorbryder dros amser

Cynyddodd cyfraddau gorbryder dros amser yn y ddau grŵp ac, eto, roedd y gyfradd cynnydd yn uwch yn y garfan cyfraith breifat (Ffigur 2). Roedd cynnydd sylweddol yng nghyffredinrwydd gorbryder rhwng 2011 a 2018 ar gyfer y garfan cyfraith breifat – o 0·8/1,000 o achosion yn 2011 i 10·7/1,000 o achosion yn 2018 (IRR = 6.0). I'r gwrthwyneb, ar gyfer y grŵp cymharu, cynyddodd cyfraddau gorbryder o 2.6/1,000 o achosion yn 2011 i 8·4/1,000 yn 2018 (IRR = 3.2).

Gweler hefyd Tabl A.4 yn yr atodiad.

Ffigur 2: IRR (wedi'i haddasu) gorbryder dros amser



Gorbryder – amrywiad yn ôl rhyw, oedran ac amddifadedd

Yn debyg i iselder, roedd gan ferched a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat (5·4/1,000) gyfraddau uwch o orbryder na bechgyn (3.3/1,000) (IRR = 1·6). Yn y grŵp cymharu, roedd cyfraddau ddwywaith yn uwch ymhlith merched o gymharu â bechgyn hefyd (IRR = 2.0).

Eto, roedd mynychder gorbryder yn cynyddu wrth i oedrannau gynyddu ar draws y ddau grŵp. Ymhlith plant mewn achosion cyfraith breifat, y gyfradd mynychder oedd 1.7/1,000 i'r rhai dan 10 oed, gan gynyddu i 21.9/1,000 ymhlith y rhai 15–17 oed (IRR = 8.6).

Roedd mynychder gorbryder tua 5/1,000 ar draws y ddau grŵp, eto ag ychydig iawn o wahaniaeth yn ôl cwintel amddifadedd.

Gweler hefyd Tabl A.4 yn yr atodiad.

Tebygolrwydd o ddatblygu iselder a gorbryder ar ôl achosion llys

Archwiliom effaith cysylltiad ag achosion preifat ar y risg o ddatblygu iselder a gorbryder yn y dyfodol hefyd. Ar ôl bod yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat, cafodd bron i ddwywaith yn fwy o blant brofiad o iselder yn gyfraneddol o gymharu â'r rhai yn y grŵp rheolydd (cymhareb perygl (HR) = 1·9), ac roedd hyn i'w weld mewn bechgyn a merched ar wahân hefyd. Yn yr un modd, roeddent hefyd 40% yn fwy tebygol o gael profiad o orbryder (HR = 1·4).

Gweler hefyd Tabl A.5 yn yr atodiad.

Casgliadau

Mae'r ymchwil hon yn amlygu bregusrwydd plant mewn achosion cyfraith breifat a'r angen i'r holl asiantaethau maent yn ymgysylltu â nhw i fod yn fyw i'r perygl cynyddol hwn o brofi iselder a gorbryder. Mae gan ysgolion, gweithwyr iechyd proffesiynol, gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr cymorth i deuluoedd rôl allweddol i'w chwarae o ran amlygu anghenion iechyd meddwl a sicrhau bod plant yn cael cefnogaeth briodol. Fel y nodwyd yn flaenorol, ni allwn ddweud a yw'r bregusrwydd hwn yn ymwneud â phrofiadau plant o achosion llys neu rieni'n gwahanu. Fodd bynnag, gwyddwn y gall rhieni'n gwahanu fod â goblygiadau sylweddol a hirdymor i les plant (Roe 2021) ac mae'r ymchwil hon yn amlygu'r angen i'r system llysoedd sydd wedi ymgysylltu â'r plant hynny fod yn dra ymwybodol o anghenion iechyd meddwl ychwanegol posibl y plant hynny. Mae'n codi cwestiynau ynghylch yr angen posibl i achosion llys agor llwybrau i fanteisio ar wasanaethau cymorth neu ymyriadau i blant wedi'u seilio ar dystiolaeth.

Mae Llywodraeth Cymru wedi ymrwymo i ddarparu cefnogaeth iechyd meddwl i blant (Senedd Cymru 2020). Mae cynnydd yn cael ei wneud wrth i ysgolion ymgorffori iechyd a lles yn y cwricwlwm a mabwysiadu ymagwedd ysgol gyfan i gefnogi disgyblion. Bydd gwella gwybodaeth plant am iechyd meddwl a lleihau'r stigma yn helpu. Fodd bynnag, mae gallu gwasanaethau cymorth iechyd meddwl sylfaenol lleol yn peri pryder sylweddol o hyd, o ran manteisio ar wasanaethau argyfwng a gwasanaethau y tu allan i oriau ledled Cymru ac, yn fwy cyffredinol, oherwydd dewisiadau cyfyngedig o ran cymorth/triniaeth i blant y mae angen cymorth arnynt, ond nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl neu niwroddatblygiadol arbenigol (Senedd Cymru 2020). Mae'r ymchwil hon yn amlygu'r angen i roi ystyriaeth benodol i sut a phryd y gallai plant y mae rhieni'n gwahanu a materion cysylltiedig yn cael effaith negyddol arnynt, gan gynnwys y rhai mewn achosion cyfraith breifat, fanteisio ar y cymorth sydd ei angen arnynt.

Mae angen rhagor o waith i archwilio'r ystod lawn o anawsterau iechyd meddwl y mae plant sy'n gysylltiedig ag achosion yn eu profi, a'r effeithiau tymor hir fel problemau iechyd ehangach, addysg a deilliannau o ran perthnasoedd. Mae angen rhagor o ymchwil hefyd i ddeall llwybrau a phrofiadau'r ystod lawn o aelodau'r teulu wrth iddynt symud drwy wahaniad a'r llysoedd teulu i ddeall yn well sut i gynnig cymorth effeithiol a all gyfyngu ar elfennau niweidiol posibl straen a gwahaniad teuluol, a chefnogi plant yn well.

Cyfeiriadau

Acquah, D. Sellers, R. Stock, L. Harold, G. (2017). *Interparental conflict and outcomes for children in the contexts of poverty and economic pressure*. Early Intervention Foundation, Llundain. https://www.eif.org.uk/report/interparental-conflict-and-outcomes-for-children-in-the-contexts-of-poverty-and-economic-pressure.

Baldwin, H. Biehal, N. Cusworth, L. Wade, J. Allgar, V. Vostanis, P. (2019). Disentangling the effect of out-of-home care on child mental health. *Child abuse & neglect*, 88, tt. 189–200. https://doi.org/ 10.1016/j.chiabu.2018.11.011.

Bedston, S.J. Pearson, R.J. Jay, M.A. Broadhurst, K., Gilbert, R. Wijlaars, L. (2020). Data Resource: Children and Family Court Advisory and Support Service (Cafcass) public family law administrative records in England. *International Journal of Population Data Science*, 5(1), tt.1-17. https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1159.

Cafcass/Cymorth i Ferched. (2017). *Allegations of domestic abuse in child contact cases.* https://www.cafcass.gov.uk/wp-content/uploads/2017/12/Allegations-of-domestic-abuse-in-child-contact-cases-2017.pdf.

Cusworth, L. Bedston, S. Trinder, L. Broadhurst, K. Pattinson, R. Johnson, R.D. Alrouh, B. Doebler, S. Akbari, A. Lee, A. Griffiths, L. Ford, D. (2020). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Pwy sy'n dod i'r llys yng Nghymru?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, Llundain. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-wales.

Cusworth, L. Hargreaves, C. Alrouh, B. Broadhurst, K. Johnson, R.D. Griffiths, L.G. Akbari, A. Doebler, S. John, A. (2021). *Datgelu cyfraith teulu breifat: Nodweddion a ffactorau risg oedolion (Cymru).* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, Llundain. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/uncovering-private-family-law-adult-characteristics-and-vulnerabilities-wales.

Cusworth, L. Bedston, S. Alrouh, B. Broadhurst, K. Johnson, R.D. Akbari, A. Griffiths, L.G. (2021). *Uncovering private family law: Who's coming to court in England?* Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, Llundain. https://www.nuffieldfjo.org.uk/resource/private-family-law-whos-coming-to-court-england.

Ford, T. Vostanis, P. Meltzer, H. Goodman, R (2007). Psychiatric disorder among British children looked after by local authorities: comparison with children living in private households. *The British Journal of Psychiatry*, 190(4), tt. 319–325.

Ford, D. Jones, K. Verplancke, J.P. Lyons, R. John, G. Brown, G. Brooks, C. Thompson, S. Bodger, O. Couch, T. Leake, K. (2009). The SAIL Databank: building a national architecture for e-health research and evaluation. *BMC health services research*, 9(1), t. 157. https://doi.org/10.1186/1472-6963-9-157.

Griffiths, L.J. Mcgregor, J. Pouliou, T. Johnson, R.D. Broadhurst, K. Cusworth, L. North, L. Ford, D.V. John, A. (2022). Anxiety and depression among children and young people involved in family justice court proceedings: Longitudinal national data linkage study. *BJPsych Open*, 8(2), E47. doi:10.1192/bjo.2022.6

Grych, J. H. a Fincham, F. D. (1990). Marital conflict and children's adjustment: A cognitive-contextual framework. *Psychological Bulletin*, 108(2), tt. 267–290. https://doiorg/10.1037/0033-2909.108.2.267.

Harding, M. a Newnham, A. (2015). How do county courts share the care of children between parents? Coventry: Prifysgol Warwig.

Harold, G.T. Sellers, R. (2016). *What works to enhance interparental relationships and improve outcomes for children?* Early Intervention Foundation, Llundain. https://www.eif.org.uk/report/what-works-to-enhance-interparental-relationships-and-improve-outcomes-for-children.

Harold, G. T. a Sellers, R. (2018). Annual Research Review: Interparental conflict and youth psychopathology: an evidence review and practice focused update. *Journal of Child Psychology and Psychiatry*, 59(4), tt. 374–402. https://doi.org/10.1111/JCPP.12893.

Hughes, K. Bellis, M.A. Hardcastle, K.A. Sethi, D. Butchart, A. Mikton, C. Jones, L. Dunne, M.P. (2017). The effect of multiple adverse childhood experiences on health: a systematic review and meta-analysis. *The Lancet Public Health*, 2(8), tt. e356–e366. https://doi.org/10.1016/S2468-2667(17)30118-4.

Hunt, J. a Macleod, A. (2008). Outcomes of applications to court for contact orders after parental separation or divorce. Y Weinyddiaeth Gyfiawnder, Llundain.

John, A. McGregor, J. Fone, D. Dunstan, F. Cornish, R. Lyons, R.A. Lloyd, K.R. (2016). Case-finding for common mental disorders of anxiety and depression in primary care: an external validation of routinely collected data. *BMC medical informatics and decision making*, 16, tt. 35. https://doi.org/10.1186/s12911-016-0274-7.

Johnson, R. Ford, D.V. Broadhurst, K. Cusworth, L. Jones, K.H. Akbari, A. Bedston, S. Alrouh, B. Doebler, S. Lee, A. Smart, J. Thompson, S. Trinder, L. Griffiths, L. J. (2020). Data Resource: Population level family justice administrative data with opportunities for data linkage. *International Journal of Population Data Science*, 5(1). https://doi.org/10.23889/ijpds.v5i1.1339.

Johnson, R.D. Griffiths, L.J. Hollinghurst, J.P. Akbari, A. Lee, A. Thompson, D.A. Lyons, R.A. Fry, R. (2021). Deriving household composition using population-scale electronic health record data—A reproducible methodology. Golygwyd gan Ramagopalan, S.V. *PLOS ONE*. 16(3), tt. e0248195. https://doi.org/10.1371/journal.pone.0248195.

Jones, K.H. Ford, D.V.Thompson, S. Lyons, R. (2019). A Profile of the SAIL Databank on the UK Secure Research Platform. *International Journal of Population Data Science*, 4(2).

Kerker, B.D. Zhang, J. Nadeem, E. Stein, R. Hurlburt, M.S. Heneghan, A. Landsverk, J. McCue Horwitz, S. (2015). Adverse Childhood Experiences and Mental Health, Chronic Medical Conditions, and Development in Young Children. *Academic Pediatrics*, 15(5), tt. 510–517. https://doi.org/10.1016/j.acap.2015.05.005.

Lyons, R. A. Jones, K.H. John, G. Brooks, C.J. Verplancke, J.P. Ford, D.V. Brown, G. Leake, K. (2009). The SAIL databank: linking multiple health and social care datasets. *BMC Medical Informatics and Decision Making*, 9(1), t. 3. https://doi.org10.1186/1472-6947-9-3.

Y Weinyddiaeth Gyfiawnder. (2018). *Family Court Statistics Quarterly, England and Wales, Annual 2018 including October to December 2018*. https://www.gov.uk/government/statistics/family-court-statistics-quarterly-october-

to-december-2019

Senedd Cymru: Senedd Cymru, Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg. (2020). *Cadernid meddwl: ddwy flynedd yn ddiweddarach.* https://senedd.wales/SeneddCYPE

Rodgers, S.E. Lyons, R.A. Dsilva, R. Jones, K.H. Brooks, C.J. Ford, D.V. John, G. Verplancke, J.P. (2009). Residential Anonymous Linking Fields (RALFs): a novel information infrastructure to study the interaction between the environment and individuals' health. *Journal of Public Health*, 31(4), tt. 582–588. https://doi.org/10.1093/pubmed/fdp041.

Roe, A. (2021). *Children's experience of private law proceedings: six key messages from research*. Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield, Llundain. www.nuffieldfjo.org.

Llwyfan Data Iechyd Meddwl y Glasoed. *Y Llwyfan.* https://adolescentmentalhealth.uk/Platform

StatsCymru. (2014). Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014 - Crynodeb: Diwygiwyd. https://statscymru.llyw.cymru/Catalogue/Community-Safety-and-Social-Inclusion/Welsh-Index-of-Multiple-Deprivation/Archive/WIMD-2014

Atodiad

Ffynonellau data

Ar gyfer pob ffynhonnell data ym Manc Data SAIL, gan gynnwys cofnodion gan Cafcass Cymru, mae data personol adnabyddadwy wedi'i ddileu a'i ddisodli gan ddyfais adnabod unigryw, sydd hefyd yn cael ei alw'n faes cysylltu dienw (ALF) neu faes cysylltu dienw preswyl (RALF) (Rodgers et al. 2009; Johnson et al. 2021), ar gyfer pob unigolyn, er mwyn gallu cysylltu cofnodion o ffynonellau gwahanol. Caiff methodoleg anonymeiddio a chysylltu SAIL ei disgrifio mewn mannau eraill (Ford et al. 2009; Lyons et al. 2009; Jones et al. 2019). Mae'r holl ddata ym Manc Data SAIL yn cael ei drin yn unol â Deddf Diogelu Data 2018 ac yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Cafcass Cymru

Y brif ffynhonnell data cyfiawnder teuluol oedd y data rheoli achosion electronig a gynhyrchir fel mater o drefn gan Cafcass Cymru, a gafodd ei drosglwyddo'n ddiogel i'r Banc Data SAIL a'i anonymeiddio. Mae mwy o fanylion am ddata Cafcass Cymru a Cafcass Lloegr, a'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol ar gael mewn mannau eraill (Johnson et al. 2020; Bedston et al. 2020). At ddiben yr astudiaeth hon, cysylltwyd data Cafcass Cymru â ffynonellau data eraill yn y Banc Data SAIL gan ddefnyddio meysydd cysylltu dienw (ALFau), gan gynnwys y canlynol.

Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD)

Mae Set Ddata Gwasanaeth Demograffig Cymru (WDSD) yn darparu nodweddion demograffig pobl sydd wedi'u cofrestru â meddygfeydd yng Nghymru – gan ddarparu manylion demograffig a chyfeiriad preswylwyr (RALFau), gan gynnwys ardal gynnyrch ehangach haen is (LSOA fersiwn 2011), y gellir eu cysylltu i gael mesurau amddifadedd.

Data Ymarfer Cyffredinol Hydredol Cymru (WLGP)

Mae data Ymarfer Cyffredinol Hydredol Cymru (WLGP) yn cynnwys cofnodion meddyg teulu ar gyfer cleifion sydd wedi'u cofrestru â meddyg teulu mewn tuag 80% o feddygfeydd sy'n cyflenwi data i Fanc Data SAIL. Mae pob cofnod yn y ffynhonnell ddata'n cynnwys gwybodaeth allweddol, fel dyddiad y digwyddiad a 'chodau Read', sy'n cael eu defnyddio gan feddygon teulu i gofnodi canfyddiadau a gweithredoedd cleifion.[4]

---

4 https://www.datadictionary.nhs.uk/web_site_content/supporting_information/clinical_coding/read_coded_clinical_terms.asp?shownav=1

Proses ddethol y garfan a'r grŵp cymharu

Roedd yr astudiaeth hon yn cynnwys plant a oedd yn gysylltiedig â Cafcass Cymru rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2018, a oedd dan 18 oed ar ddyddiad y cais cofnodedig cyntaf i'r llys. Canfuom 26,569 o blant a oedd yn rhan o achosion cyfraith breifat. Rhoddwyd ALF i dros 91% o'r rhain (24,219), a'n galluogodd i gysylltu eu gwybodaeth â'r ffynonellau data eraill ym Manc Data SAIL. Cyfyngwyd y sampl ymhellach i'r rhai a oedd â chofnod WDS (n = 24,160) ac a oedd wedi'u cofrestru â meddyg teulu sy'n cyflenwi SAIL dros yr un cyfnod, a oedd â gwerth o leiaf 12 mis o ddata gofal sylfaenol parhaus (n = 17,041). Felly, roedd y sampl derfynol yn cynnwys 17,041 a oedd yn gysylltiedig ag achosion cyfraith breifat.

Detholwyd grŵp cymharu cyffredinol o 680,617 o blant – a oedd dan 18 oed hefyd ond nad oeddent yn gysylltiedig ag achosion llysoedd teulu – o Fanc Data SAIL ar gyfer yr un cyfnod. O'r grŵp hwn, dewisom 10 rheolydd ar hap fesul achos wedi'u paru yn ôl oedran a rhywedd, a arweiniodd at sampl rheolydd o 225,650 o blant ar gyfer dadansoddiadau amser tan y digwyddiad.

Ffigur A.1: Diagram llif o gyfranogwyr yr astudiaeth



* Plant a oedd yn byw yng Nghymru, a oedd wedi'u cofrestru â meddygfa sy'n cyflenwi SAIL rhwng 1 Ionawr 2011 a 31 Rhagfyr 2018 a oedd â gwerth o leiaf 12 mis o ddata parhaus gan y meddyg teulu.

Sampl rheolydd ar gyfer y dadansoddiad goroesi: 225,650 (cyfrifiad: 10 rheolydd fesul achos (wedi'u paru yn ôl oedran a rhywedd) ac a nodwyd o'r grŵp cymharu)

Mesurau

Dadansoddwyd cofnodion WLGP ar gyfer codau clinigol a oedd yn dangos diagnosisau neu symptomau o iselder a gorbryder ar sail rhestrau codau dilys a ddatblygwyd gan Lwyfan Data Iechyd Meddwl y Glasoed ('Y Llwyfan – Llwyfan Data Iechyd Meddwl y Glasoed', dim dyddiad; John et al., 2016). Diffiniwyd cofnod newydd o iselder neu orbryder fel cofnod lle na chofnodwyd unrhyw bwl o'r cyflwr hwnnw yn ystod y 12 mis blaenorol.

Roedd oedran ac amddifadedd wedi'u seilio ar yr adeg y casglwyd data ar gyfer pob blwyddyn. Disgrifiwyd oedran yn ôl categorïau, sef dan 10 oed, 11-14 a 15-17 oed. Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) yw mesur swyddogol Llywodraeth Cymru o amddifadedd; mae MALIC 2014 (*Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) 2014 - Crynodeb: Diwygiad*, heb ddyddiad) yn gysylltiedig â daearyddiaeth ystadegol ardaloedd cynnyrch ehangach haen is (LSOA) sydd wedi'u graddio o 1 (mwyaf difreintiedig) i 1,909 (lleiaf difreintiedig) - wedi'u rhannu'n gwintelau ar gyfer yr astudiaeth hon.

Proses ddadansoddol

Ymholwyd Banc Data SAIL gan ddefnyddio Iaith Ymholiadau Strwythuredig a chynhaliwyd dadansoddiadau gan ddefnyddio meddalwedd ystadegol SPSS (fersiwn 26).

Mesurau mynychder

Cyfrifwyd cyfraddau mynychder blynyddol gan ddefnyddio blynyddoedd unigolyn mewn perygl (*person years at risk* – PYAR) fel enwadur. Defnyddiwyd model atchwel Poisson i ymchwilio i'r cysylltiad addasedig rhwng mynychder iselder a gorbryder, wedi'i addasu ar gyfer rhyw, oedran, amddifadedd a blwyddyn yr achos llys. Cyfrifwyd y cyfyngau hyder gan ddefnyddio'r dull union canol-p dwygynffon, gan ddefnyddio dosraniad Poisson. Defnyddiwyd profion Wald i asesu arwyddocâd canfyddiadau. Defnyddiwyd gwallau safonol cadarn ar gyfer y cymarebau cyfraddau mynychder (IRRau) amcangyfrifedig i gyfrif am glystyrau mewn meddygfeydd.

Dadansoddiadau amser tan y digwyddiad

Cynhaliwyd dadansoddiadau amser tan y digwyddiad i archwilio effaith cysylltiad ag achosion llys preifat ar y risg o iselder a gorbryder. Defnyddiom atchweliad perygl cyfraneddol Cox, sef dull sy'n tybio bod yr effaith ar y digwyddiad yn gyson dros amser i gyfrifo cymarebau perygl (HRau) â chyfyngau hyder o 95%. Mae'r HRau yn cynrychioli effeithiau cysylltiad â'r llys o gymharu â dim cysylltiad â'r llys ar y risg sylfaenol ar gyfer y naill gyflwr iechyd meddwl neu'r llall yn ystod y cyfnod dilynol. Modelom y cyfnod amser o ddyddiad y cais cyntaf i'r llys (mynegai) i'r cofnod cyntaf o iselder neu orbryder, neu sensoriaeth (h.y. y dyddiad cynharaf o'r canlynol: marwolaeth, gadael meddygfa sydd wedi'i chofrestru â SAIL, gadael Cymru, neu ben-blwydd yn 18 oed). Gosodom fodelau un-newidyn ar wahân ar gyfer iselder a gorbryder, a modelau amlnewidyn gan addasu ar gyfer amddifadedd (ar y dyddiad mynegai) a hanes blaenorol o'r cyflyrau hyn fel cyd-newidynnau.

Cymeradwyaeth llywodraethu gwybodaeth a rheoli dateglu ystadegol

Adolygwyd y cynnig ar gyfer y prosiect gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL ym Mhrifysgol Abertawe. Mae'r panel hwn yn sicrhau bod gwaith yn cydymffurfio ag egwyddorion llywodraethu gwybodaeth ac yn cynrychioli defnydd priodol o ddata er budd y cyhoedd. Mae IGRP yn cynnwys cynrychiolwyr o gyrff proffesiynol a rheoleiddiol, darparwyr data a'r cyhoedd. Rhoddodd yr IGRP gymeradwyaeth i'r prosiect o dan rif prosiect 1040 SAIL. Cymeradwyodd Cafcass Cymru (perchennog y data llysoedd teulu) ddefnydd o'r data ar gyfer y prosiect hwn hefyd. Ystyriodd yr asiantaeth werth yr astudiaeth i'r cyhoedd, y buddion i'r asiantaeth ei hun, yn ogystal â safonau cyffredinol ar gyfer defnyddio data gweinyddol yn ddiogel.

Mae gan SAIL brosesau a pholisïau llym ynglŷn â datgelu ystadegol i atal y posibilrwydd o ddatgelu unrhyw unigolyn. Mae hyn yn cynnwys cuddio gwybodaeth mewn tablau lle mae'r rhif mewn unrhyw gell unigol yn llai na phump, neu ble y gallai nodweddion daearyddol ddatgelu pwy yw'r unigolyn dan sylw naill ai'n unigol neu ar y cyd â data arall. Lle y defnyddiwyd hyn, nodir hynny yn yr adrannau perthnasol. Er enghraifft, mae bandiau oedran wedi'u hehangu mewn dadansoddiadau penodol i atal problemau datgelu sy'n gysylltiedig â niferoedd bach.

Tablau

Tabl A.1: Nodweddion y garfan cyfraith breifat, rheolyddion cyfatebol a'r grŵp cymharu

	Carfan		Rheolyddion cyfatebol[a]		Grŵp cymharu	
	n	%	n	%	n	%
Cyfanswm	17,041		170,410		680,617	
Rhyw						
Bechgyn	8,744	51·3	87,440		348,647	51·2
Merched	8,297	48·7	82,970		331,970	48·8
Grŵp oedran						
Dan 10 oed	15,702	92·1	135,300		461,182	67·8
10-14 oed	1,297	7·6	32,000		154,013	22·6
15-17 oed	42	0·2	3110		65,422	9·6
Cwintel amddifadedd[b]						
Lleiaf difreintiedig	2,142	12·6	30,688	18·0	122,365	18·0
Ail leiaf difreintiedig	2,311	13·6	26,828	15·7	108,270	15·9
Amddifadedd canolig	3,018	17·7	31,453	18·5	127,366	18·7
Ail fwyaf difreintiedig	3,984	23·4	35,031	20·6	139,674	20·5
Mwyaf difreintiedig	5,272	30·9	41,829	24·5	164,803	24·2

[a] Grŵp rheolyddion cyfatebol (wedi'u paru yn ôl oedran/rhywedd, cyfran ym mhob grŵp oedran a rhywedd yr un fath â'r garfan) ar gyfer y dadansoddiadau amser tan y digwyddiad.
[b] Data coll ar gyfer amddifadedd (grŵp cymharu: 18,139; preifat: 314).

Tabl A.2: Iselder a gorbryder ar gyfer y garfan cyfraith breifat a'r grŵp cymharu

	Iselder			Gorbryder		
	Digwyddiadau (n)	IR (95% CI)	IRR (95% CI)[a]	Digwyddiadau (n)	IR (95% CI)	IRR (95% CI)[a]
Cyfanswm	17,081			18,437		
Cyfraith breifat	384	3·5 (3·4–3·7)	1·6 (1·4–1·7)[b]	470	4·3 (4·2–4·5)	1·3 (1·2–1·4)[b]
Grŵp cymharu	16,485	4·6 (4·6–4·6)	1 (0–0)	17,815	5 (4·9–5)	1 (0–0)

[a] Wedi'i haddasu ar gyfer y flwyddyn galendr, rhywedd, oedran, amddifadedd.
[b] arwyddocâd gwerth-p: <0·001.

IR, cyfradd mynychder; IRR, cymhareb cyfradd mynychder; CI, cyfwng hyder.

Tabl A.3: Nifer y digwyddiadau, mynychder fesul 1,000 o flynyddoedd unigolyn mewn perygl (95% CI) a chymhareb cyfradd mynychder (95% CI) am gyflwyno i wasanaethau ar gyfer iselder

	Carfan cyfraith breifat (n=17,041)			Grŵp cymharu (n=680,617)		
	Digwyddiadau (n)	IR (95% CI)	IRR (95% CI)[a]	Digwyddiadau (n)	IR (95% CI)	IRR (95% CI)[a]
Cyfanswm	384	3·5 (3·4–3·7)		16,485	4·6 (4·6–4·6)	
Rhyw						
Bechgyn	135	2·4 (2·3–2·6)	1	5,077	2·8 (2·7–2·8)	1
Merched	249	4·7 (4·5–4·9)	1·9 (1·6–2·4)[b]	11,408	6·5 (6·5–6·6)	2·4 (2·3–2·5)[b]
Grŵp oedran						
Dan 10 oed	34	0·4 (0·4–0·5)	1	297	0·1 (0·1–0·2)	1
10-14 oed	195	8·6 (8·2–9·0)	19·1 (13·1–27·7)[b]	5,322	5·2 (5·2–5·3)	36·2 (32·1–40·7)[b]
15-17 oed	155	37·3 (35·3–39·4)	75·6 (51·3–111·4)[b]	10,866	20·5 (20·4–20·7)	142·8 (127·1–160·5)[b]
Cwintel amddifadedd						
Lleiaf difreintiedig	54	3·9 (3·6–4·3)	1	2,585	3·9 (3·8–3·9)	1
Ail leiaf difreintiedig	44	2·9 (2·7–3·3)	0·8 (0·5–1·2)	2,370	4·1 (4·1–4·2)	1·1 (1·0–1·2)[b]
Amddifadedd canolig	64	3·3 (3·0–3·6)	0·9 (0·7–1·4)	2,886	4·3 (4·3–4·4)	1·2 (1·1-1·2)[b]
Ail fwyaf difreintiedig	82	3·3 (3·0–3·5)	1 (0·7–1·4)	3,646	4·9 (4·9–5·0)	1·4 (1·3–1·5)[b]
Mwyaf difreintiedig	133	4·0 (3·8–4·2)	1·3 (0·9–1·8)	4,644	5·4 (5·4–5·5)	1·6 (1·5–1·7)[b]
Blwyddyn						
2011	8	0·7 (0·6–0·9)	1	1,278	2·9 (2·9–3·0)	1
2012	16	1·3 (1·1–1·5)	1·3 (0·6–3·1)	1,747	3·9 (3·8–3·9)	1·2 (1·1–1·3)[b]
2013	23	1·7 (1·5–2·0)	1·5 (0·7–3·4)	1,927	4·3 (4·2–4·3)	1·3 (1·2–1·4)[b]
2014	33	2·3 (2·1–2·6)	1·5 (0·7–3·4)	2,004	4·4 (4·4–4·5)	1·4 (1·3–1·5)[b]
2015	57	3·9 (3·6–4·3)	2·2 (1·0–4·6)[c]	2,322	5·1 (5·1–5·2)	1·7 (1·5–1·8)[b]
2016	57	3·8 (3·5–4·2)	1·8 (0·8–3·8)	2,101	4·6 (4·6–4·7)	1·5 (1·4–1·6)[b]
2017	80	5·5 (5·1–5·9)	2·1 (1·0–4·4)[c]	2,406	5·3 (5·2-5·4)	1·8 (1·7-1·9)[b]
2018	110	7·9 (7·4-8·5)	2·6 (1·3-5·4)[c]	2,700	6·3 (6·2-6·4)	2·1 (1·9-2·2)[b]

[a] Wedi'i haddasu ar gyfer y flwyddyn galendr, rhywedd, oedran, amddifadedd.
[b] arwyddocâd gwerth-p: <0·001
[c] arwyddocâd gwerth-p: <0·05.

IR, cyfradd mynychder; IRR, cymhareb cyfradd mynychder; CI, cyfwng hyder.

Tabl A.4: Nifer y digwyddiadau, mynychder fesul 1,000 o flynyddoedd unigolyn mewn perygl (95% CI) a chymhareb cyfradd mynychder (95% CI) am gyflwyno i wasanaethau ar gyfer gorbryder

	Carfan cyfraith breifat (n=17,041)			Grŵp cymharu (n=68,0617)		
	Digwyddiadau (n)	IR (95% CI)	IRR (95% CI)[a]	Digwyddiadau (n)	IR (95% CI)	IRR (95% CI)[a]
Cyfanswm	470	4·3 (4·2–4·5)		17,815	5 (4·9–5)	
Rhyw						
Bechgyn	185	3·3 (3·1–3·5)	1	6,238	3·4 (3·4–3·4)	1
Merched	285	5·4 (5·2–5·6)	1·6 (1·3–1·9)[b]	11,577	6·6 (6·6–6·7)	2 (1·9–2)[b]
Grŵp oedran						
Dan 10 oed	141	1·7 (1·6–1·8)	1	2,197	1·1 (1·1–1·1)	1
10-14 oed	238	10·4 (10–10·9)	4·8 (3·9–6)[b]	7,314	7·1 (7·1–7·2)	6·7 (6·4–7)[b]
15-17 oed	91	21·9 (20·4–23·5)	8·6 (6·5–11·4)[b]	8,304	15·7 (15·6–15·8)	14·7 (14–15·4)[b]
Cwintel amddifadedd						
Lleiaf difreintiedig	71	5·2 (4·8–5·6)	1	3,445	5·2 (5·1–5·2)	1
Ail leiaf difreintiedig	72	4·8 (4·5–5·2)	1 (0·7–1·3)	2,860	5 (4·9–5·1)	1 (0·9–1)
Amddifadedd canolig	89	4·6 (4·3–4·9)	0·9 (0·7–1·3)	3,375	5 (5–5·1)	1 (1–1·1)
Ail fwyaf difreintiedig	112	4·5 (4·2–4·7)	0·9 (0·7–1·3)	3,625	4·9 (4·9–5)	1 (1–1·1)
Mwyaf difreintiedig	110	3·3 (3·1–3·5)	0·7 (0·5–1)[c]	4,110	4·8 (4·7–4·8)	1 (1–1·1)
Blwyddyn						
2011	9	0·8 (0·7–1)	1	1,130	2·6 (2·5–2·6)	1
2012	25	2 (1·8–2·3)	2·3 (1·1–4·9)[c]	1,362	3 (3–3·1)	1·1 (1–1·2)[c]
2013	27	2 (1·8–2·3)	2·1 (1–4·5)	1,622	3·6 (3·5–3·7)	1·3 (1·2–1·4)[b]
2014	33	2·3 (2·1–2·6)	2·1 (1–4·4)	1,978	4·4 (4·3–4·4)	1·6 (1·5–1·8)[b]
2015	53	3·6 (3·3–4)	3 (1·5–6·1)[c]	2,336	5·2 (5·1–5·2)	2 (1·8–2·1)[b]
2016	80	5·4 (5–5·8)	4 (2–8·1)[b]	2,593	5·7 (5·6–5·8)	2·2 (2·1–2·4)[b]
2017	95	6·5 (6·1–7)	4·5 (2·2–8·9)[b]	3,181	7 (6·9–7·1)	2·7 (2·5–2·9)[b]
2018	148	10·7 (10·1–11·3)	6 (3·1–11·9)[b]	3,613	8·4 (8·3–8·5)	3·2 (3–3·4)[b]

[a] Wedi'i haddasu ar gyfer y flwyddyn galendr, rhywedd, oedran, amddifadedd.
[b] arwyddocâd gwerth-p: * <0·001
[c] arwyddocâd gwerth-p: ** <0·05
IR, cyfradd mynychder; IRR, cymhareb cyfradd mynychder; CI, cyfwng hyder.

Tabl A.5: Cyfrifiadau, canran y risg o orbryder/iselder ar ôl a chyn yr achos llys (preifat) a chymarebau perygl ar gyfer y dadansoddiadau amser tan y digwyddiad

		Gorbryder				Iselder			
	Plant (n)	Digwyddiadau n (%)	Hanes o orbryder n (%)[a]	HR heb ei haddasu (95% CI)[b]	HR addasedig (95% CI)	Digwyddiadau n (%)	Hanes o iselder n (%)[c]	HR heb ei haddasu (95% CI)	HR addasedig (95% CI)[d]
Pawb	17,041	384 (2·3)	13 (3·4)	1·4 (1·2–1·5)[e]	1·4 (1·2–1·6)[e]	328 (1·9)	15 (4·6)	2·0 (1·7–2·2)[e]	1·9 (1·7–2·1)[e]
Bechgyn	8,744	148 (1·7)		1·4 (1·2–1·7)[e]	1·4 (1·2–1·7)[e]	113 (1·3)		2·1 (1·7–2·5)[e]	2·0 (1·7–2·5)[e]
Merched	8,297	236 (2·8)		1·4 (1·2–1·6)[e]	1·6 (1·2–1·6)[e]	215 (2·6)		1·9 (1·6–2·2)[e]	1·8 (1·6–2·1)[e]

[a] Hanes o orbryder ymhlith y rhai a oedd â diagnosis ar ôl yr achos llys.
[b] Addaswyd ar gyfer hanes blaenorol (erioed) o orbryder ac iselder.
[c] Hanes o iselder ymhlith y rhai a oedd â diagnosis ar ôl yr achos llys. Ni ddarperir niferoedd ar wahân ar gyfer bechgyn a merched oherwydd y niferoedd bach (perygl o ddatgeliad).
[d] Addaswyd ar gyfer hanes blaenorol (erioed) o orbryder ac iselder.
[e] arwyddocâd gwerth-p: <0·001

HR, cymhareb perygl; CI, cyfwng hyder.

Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield

Nod Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield (ACT Nuffield) yw cefnogi'r penderfyniadau gorau posibl i blant drwy wella'r defnydd o ddata a thystiolaeth ymchwil yn y system cyfiawnder teuluol yng Nghymru a Lloegr. Trwy gwmpasu cyfraith gyhoeddus a phreifat, mae ACT Nuffield yn darparu data ac ymchwil hygyrch i weithwyr proffesiynol sy'n gweithio mewn llysoedd teulu.

Sefydlwyd ACT Nuffield gan Sefydliad Nuffield, sef ymddiriedolaeth elusennol annibynnol sydd â chenhadaeth i wella lles cymdeithasol. Mae'r Sefydliad yn ariannu ymchwil sy'n llywio polisi cymdeithasol, a hynny ym meysydd addysg, lles a chyfiawnder yn bennaf. Mae hefyd yn ariannu rhaglenni myfyrwyr er mwyn i bobl ifanc ddatblygu sgiliau a hyder mewn dulliau meintiol a gwyddonol. Sefydliad Nuffield yw sylfaenydd a chyd-gyllidwr Sefydliad Ada Lovelace a Chyngor Biofoeseg Nuffield.

Y Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol

Mae'r Bartneriaeth Data Cyfiawnder Teuluol yn gydweithrediad rhwng Prifysgol Caerhirfryn a Phrifysgol Abertawe, gyda Cafcass a Cafcass Cymru yn rhanddeiliaid annatod. Caiff ei hariannu gan Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield.

Banc Data SAIL

Mae data Cafcass Cymru a ddefnyddiwyd yn yr astudiaeth hon ar gael o'r Banc Data Cyswllt Gwybodaeth Ddienw Ddiogel (SAIL) ym Mhrifysgol Abertawe, Abertawe, y DU, sy'n rhan o'r seilwaith ymchwil cofnodion e-iechyd cenedlaethol i Gymru. Mae'n rhaid i bob cynnig i ddefnyddio data SAIL gael ei adolygu a'i gymeradwyo gan Banel Adolygu Llywodraethu Gwybodaeth (IGRP) SAIL. Pan roddir mynediad, fe'i ceir trwy hafan ddiogel sy'n diogelu preifatrwydd a system mynediad o bell, y cyfeirir ati fel Porth SAIL. Dylai unrhyw un sy'n dymuno cyrchu data ddilyn canllawiau'r broses ymgeisio sydd ar gael yn: www.saildatabank.com/application-process

Hawlfraint © Arsyllfa Cyfiawnder Teuluol Nuffield 2022
100 St John St, London EC1M 4EH Ffôn: 020 7631 0566

Rhan o Sefydliad Nuffield: Elusen gofrestredig 206601
nuffieldfjo.org.uk | @NuffieldFJO www.nuffieldfoundation.org | @NuffieldFound